



## Fforwm Rheoli Tir Cymru

---

**Yn bresennol:** Zoe Henderson (Aelod Bwrdd CNC a Chadeirydd Fforwm Rheoli Tir Cymru)  
Hedd Pugh (NFU Cymru)  
Bernard Griffiths (Swyddog Polisi Defnydd Tir Undeb Amaethwyr Cymru)  
Dennis Matheson (Cymdeithas y Ffermwyr Tenant)  
Tim Kirk (Confor)  
Bob Vaughan (Rheolwr Ffermio Tir a Rheoli Coedwigoedd yn Gynaliadwy, CNC)  
Martyn Evans (Pennaeth Gweithrediadau De-orllewin Cymru, CNC)  
Brian Pawson (Uwch-gynghorydd Amaethyddol, CNC)  
Geraint Weber (Cynghorydd Strategaeth Ddŵr, CNC)  
Meinir Wigley (Rheolwr Marchnata a Digwyddiadau, CNC)

**Yn bresennol fel sylwedydd:** Ian Roderick (Sefydliad Schumacher)

**Ymddiheuriadau:** Tudur Parry (Undeb Amaethwyr Cymru), Rhianne Jones (Swyddog Polisi y Gymdeithas Tir a Busnes Cefn Gwlad), Nia Lloyd (CFfl-Cymru), Howard Davies (Aelod Bwrdd CNC), Ruth Jenkins (Pennaeth Cynllunio Adnoddau Naturiol, CNC), Peter Garson (Pennaeth Gwasanaethau Gweithredol y De, CNC), Chris Blake (Aelod Bwrdd CNC), Russell De'Ath (Uwch-gynghorydd Rheoli Adnoddau Naturiol, CNC), Catherine Love (Cyfarwyddwr Gofal Cwsmeriaid, Cydberthnasau Allanol a Chyfathrebu, CNC), Ceri Davies (Cyfarwyddwr Gweithredol CNC dros Dystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu).

---

**Dyddiad a lleoliad y cyfarfod:** 11 Hydref 2018 – Swyddfeydd Llywodraeth Cymru, Aberystwyth.

---

**Ysgrifenyddiaeth:** Helen Haider (Cydgyssylltydd Llygredd Amaethyddol Fforwm Rheoli Tir Cymru, CNC)

---

### 1. Cyflwyniadau ac ymddiheuriadau

Agorodd Zoe Henderson y cyfarfod drwy fynegi ei thristwch mawr dros farwolaeth sydyn Martin Bishop. Cyn colli ei fywyd mewn damwain hedfan, Martin oedd rheolwr cenedlaethol Confor dros Gymru ac roedd yn aelod gwerthfawr o Fforwm Rheoli Tir Cymru.

Croesawyd Ian Roderick i'r cyfarfod fel sylwedydd. Eglurodd Geraint Weber fod Sefydliad Schumacher wedi cael ei gomisiynu i gynorthwyo is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru i wneud gwaith dadansoddi pellach ar yr hyn sydd wrth wraidd llygredd amaethyddol. Credwyd y byddai'n ddefnyddiol i lan gael mwy o ddealltwriaeth o sut mae cyfarfod llawn Fforwm Rheoli Tir Cymru'n gweithredu cyn cyfarfod nesaf yr is-grŵp (sy'n cael ei gynnal ar brynghawn 11 Hydref).

## **2. Cofnodion y cyfarfod diwethaf ar 27 Mawrth a materion a godwyd**

Cadarnhawyd fod cofnodion y cyfarfod blaenorol ar 11 Tachwedd 2017 yn gofnod cywir o'r cyfarfod. Oherwydd prinder amser, bydd y camau gweithredu sydd ar ôl i'w gwneud yn cael eu dilyn i fyny drwy ohebiaeth.

## **3. Cylch gorchwyl ac aelodaeth Fforwm Rheoli Tir Cymru**

Roedd manylion y cylch gorchwyl diwygiedig wedi'u dosbarthu cyn y cyfarfod.

Eglurodd Dennis Matheson (Cymdeithas y Ffermwyr Tenant) ei fod wedi bod yn siarad â'r Gynghrair Cefn Gwlad, sydd wedi mynegi diddordeb mewn ymuno â Fforwm Rheoli Tir Cymru. Trafodwyd y cynnig hwn ymhellach, ac awgrymodd yr aelodau mai un ffordd o ymgysylltu â'r Gynghrair Cefn Gwlad fyddai eu gwahodd i siarad yn un o gyfarfodydd Fforwm Rheoli Tir Cymru yn y dyfodol. Teimlai'r rhan fwyaf o bobl a oedd yn bresennol y dylai sefydliadau Fforwm Rheoli Tir Cymru gynrychioli'r rhai hynny sy'n berchen ar dir ac yn ei reoli fel eu prif weithgarwch (fel y disgrifiwyd yn y cylch gorchwyl presennol) yn hytrach nag ehangu i gynnwys sefydliadau eraill y mae eu haelodau'n ddefnyddwyr cefn gwlad yn bennaf, er y gallai rhai ohonynt hefyd fod yn berchen ar dir neu'n ei reoli. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wrthi'n gweithio ar Strategaeth Rhanddeiliaid newydd er mwyn sicrhau bod pob rhanddeiliad yn cael cyswllt priodol â Cyfoeth Naturiol Cymru.

***PG1 – Egluro i'r Gynghrair Cefn Gwlad nad yw cylch gorchwyl Fforwm Rheoli Tir Cymru yn cynnwys aelodaeth o'r fath, ond bydd cynrychiolydd yn cael ei wahodd i siarad yn un o gyfarfodydd Fforwm Rheoli Tir Cymru yn y dyfodol (Zoe Henderson a Brian Pawson)***

***PG2 – Cyfoeth Naturiol Cymru i nodi llinell gysylltu glir ar gyfer y Gynghrair Cefn Gwlad (Bob Vaughan)***

***PG3 – Trefnu bod agendâu drafft Fforwm Rheoli Tir Cymru a'r cofnodion a gadarnhawyd yn cael eu cyhoeddi ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru yn y dyfodol (Meinir Wigley a Brian Pawson)***

***PG4 – Sicrhau bod rhanddeiliaid perthnasol eraill yn ymwybodol o'r ffaith y bydd cofnodion Fforwm Rheoli Tir Cymru ar gael ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru yn y dyfodol (Brian Pawson a Meinir Wigley)***

***PG5 – Diwygio cylch gorchwyl Fforwm Rheoli Tir Cymru i ddangos y bydd cofnodion Fforwm Rheoli Tir Cymru yn cael eu rhannu ac ar gael drwy wefan Cyfoeth Naturiol Cymru yn y dyfodol (Brian Pawson)***

Bu ychydig o drafodaeth ynghylch yr angen am fwy o eglurder wrth anfon gohebiaeth o Fforwm Rheoli Tir Cymru / is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru i Lywodraeth Cymru ac at bobl eraill. Mae llythyrau is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru wedi eu hanfon ar bapur â phennawd Cyfoeth Naturiol Cymru yn y gorffennol, sydd wedi achosi ychydig o ddryswch ymhlith y derbynwyr. Gan fod Fforwm Rheoli Tir Cymru yn fforwm dan arweiniad Cyfoeth Naturiol Cymru, cytunwyd nad oedd angen creu logo ar wahân i Fforwm Rheoli Tir Cymru. I'r gwrthwyneb, mae is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru yn eiddo i'r rhanddeiliaid sy'n gysylltiedig ag ef – a gallai fod manteision dros ddatblygu logo priodol er mwyn dangos hyn i bobl eraill.

***PG6 – Bydd logo Cyfoeth Naturiol Cymru yn parhau i gael ei ddefnyddio ar holl bapurau Fforwm Rheoli Tir Cymru, ond gellid defnyddio gwahanol logo ar unrhyw lythyrau a anfonir gan is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru (Brian Pawson a Meinir Wigley)***

#### **4(a). Diweddariad gan Cyfoeth Naturiol Cymru: Cynllun y Sefydliad**

Rhoddodd Martyn Evans ddiweddariad ar Gynllun y Sefydliad, sy'n ymdrin â strwythurau ar draws Cyfoeth Naturiol Cymru gyda'r nod o wella integreiddio ar draws y sefydliad. Bydd pwyslais cryf ar gyflenwi sy'n seiliedig ar le, gweithio gyda rhanddeiliaid a symleiddio llinellau adrodd. Dyluniwyd y broses i sicrhau y gall Cyfoeth Naturiol Cymru gyflawni ei rwymedigaethau o dan Ddeddf yr Amgylchedd / Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a bod ganddo strwythur digon cryf i ymdopi ag unrhyw newidiadau o ran cyllid yn y dyfodol. Bydd y gwaith ad-drefnu yn uno cylch gwaith eang Cyfoeth Naturiol Cymru, gan roi pwyslais cryf ar y cwsmer.

Bydd gan Cyfoeth Naturiol Cymru dair cyfarwyddiaeth yn y dyfodol – Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu, Cyflawni Gweithredol a Gwasanaethau Galluogi – gyda chydbwysedd tebyg o staff rhwng y cyfarwyddiaethau.

Bydd chwech 'Pennaeth Lle', a gefnogir gan chwe thîm cyflenwi uniongyrchol ar y tir. Bydd y rhain yn ymdrin â gwaith mewnol ar asedau cenedlaethol (Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol, Ystad Goetir Llywodraeth Cymru a Rheoli Llifogydd), yn ogystal â gwaith allanol gyda rhanddeiliaid, mynediad cyhoeddus ac ati. Bydd pob tîm cyflenwi uniongyrchol yn cynnwys tri thîm Rheoli Adnoddau Naturiol, pob un â 12–13 aelod o staff ac arweinydd tîm (oddeutu 40 aelod o staff i gyd). Bydd hefyd un tîm morol dros Gymru gyfan.

Daeth ymgynghoriad staff Cyfoeth Naturiol Cymru ar Gynllun y Sefydliad i ben ar ddiwedd mis Medi, ac mae'r adborth yn cael ei ddadansoddi nawr cyn cyfarfod y bwrdd ym mis Hydref. Bwriedir i'r strwythurau newydd gael eu rhoi ar waith o 1 Ebrill 2019 ymlaen.

***PG7 – Dosbarthu strwythurau staff newydd Cyfoeth Naturiol Cymru i aelodau Fforwm Rheoli Tir Cymru pan fyddant ar gael (Brian Pawson)***

***PG8 – Manylion strwythurau sefydliadol newydd Cyfoeth Naturiol Cymru i ymddangos fel eitem ar agenda'r cyfarfod nesaf. Mae angen pwyntiau cyswllt penodol ar aelodau Fforwm Rheoli Tir Cymru, ar lefelau canolig a lleol o fewn Cyfoeth Naturiol Cymru (Brian Pawson)***

Yn ystod y drafodaeth, amlygwyd pwysigrwydd sicrhau bod cwsmeriaid yn cael eu cyfeirio at yr unigolyn cywir o fewn Cyfoeth Naturiol Cymru drwy'r rhif ffôn gofal cwsmeriaid.

#### **4b) Diweddariad gan Cyfoeth Naturiol Cymru: materion cyfoes**

##### **4(b)(i) Arolwg cwsmeriaid Cyfoeth Naturiol Cymru:**

Eglurodd Meinir Wigley fod yr arolwg cwsmeriaid wedi dangos bod ymateb Cyfoeth Naturiol Cymru yn well dros y ffôn na phan fydd yn ymdrin ag e-bost neu ohebiaeth ysgrifenedig. Cydnabyddir bod angen gwella gwasanaethau eraill Cyfoeth Naturiol Cymru (e.e. y wefan). Mae aelod staff ar gael bellach i gymryd rhan mewn profion cwsmeriaid. Mae angen i Cyfoeth Naturiol Cymru wella'r ffordd yr ymdrinnir â chwynion, yn enwedig pan gaiff llythyrau eu hanfon at nifer o bobl o fewn Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae prosiect newydd wedi ei greu i fynd i'r afael â hyn.

Mae angen i bob aelod o staff o fewn Cyfoeth Naturiol Cymru ddeall sut i ymdrin â chwsmeriaid. Rhaid canolbwyntio ar gael y pethau sylfaenol yn gywir, fel y gellir ymdrin â phroblemau y tro cyntaf y byddant yn ymddangos. Cymeradwywyd strategaeth gwsmeriaid Cyfoeth Naturiol Cymru yn ystod cyfarfod bwrdd diwethaf Cyfoeth Naturiol Cymru.

#### ***PG9 – Darparu diweddariad pellach ynghylch canlyniadau arolwg cwsmeriaid Cyfoeth Naturiol Cymru (Catherine Love)***

##### **4(b)(ii) Diweddariad dŵr**

Eglurodd Geraint Weber fod Cyfoeth Naturiol Cymru yn sefydlu fforwm newydd o'r enw Fforwm Rheoli Dŵr Cymru. Mae'r ddau banel cyswllt basn afon yn cael eu cyfuno i wneud strwythur newydd sy'n cynnwys un grŵp strategol. Gobeithir y bydd cyfarfod cyntaf y Fforwm Rheoli Dŵr Cymru newydd yn cael ei gynnal cyn diwedd y flwyddyn. Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn dosbarthu gwahoddiadau i'r holl sefydliadau perthnasol, sy'n debygol o gynnwys y cwmnïau dŵr, cyrff anllywodraethol amgylcheddol, yr Ymddiriedolaeth Afonydd, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, yr Awdurdod Glo, Asiantaeth yr Amgylchedd, NFU Cymru, Undeb Amaethwyr Cymru a Llywodraeth Cymru. Bydd rhywfaint o orgyffwrdd rhwng Fforwm Rheoli Dŵr Cymru a Fforwm Rheoli Tir Cymru er mwyn sicrhau bod tir a dŵr yn cael eu trin mewn modd integredig. Yn achos is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru a Fforwm Rheoli Dŵr Cymru, bydd aelodaethau yn gorgyffwrdd, a chadarnhawyd y byddai Cyfoeth Naturiol Cymru yn sicrhau bod materion sy'n gyffredin i'r ddau grŵp yn cael eu trin 'unwaith yn unig' cyn belled â phosibl.

Mae ail gylchred y Cynlluniau Rheoli Basn Afon ar waith gan Cyfoeth Naturiol Cymru, a bydd y drydedd gylchred ar waith rhwng 2021 a 2027. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi dechrau ymgysylltu â rhanddeiliaid ar gyfer y drydedd gylchred. Mae'r ymgynghoriad 'Gweithio gyda'n gilydd' yn nodi sut bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn gweithio gyda rhanddeiliaid, ac mae'r cyfnod ymgynghori'n dod i ben ar 22 Rhagfyr 2018.

Roedd dosbarthiad y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr yn arfer cael ei ddiweddarau bob blwyddyn ar gyfer pob corff dŵr, ond bydd diweddariadau o'r fath yn cael eu gwneud bob tair blynedd bellach. Mae'r data dŵr croyw newydd gael ei brosesu a bydd data dŵr hallt yn dilyn. Gellir gweld dosbarthiad terfynol pob corff dŵr ar wefan Arsylwi Dyfroedd Cymru. Mae rhai arwyddion o welliant yn statws rhai cyrff dŵr, ac mae'r data sylfaenol yn cael ei adolygu i ddeall pam fod y gwelliannau hyn wedi digwydd.

***PG10 – Darparu dolen i ymgynghoriad Cyfoeth Naturiol Cymru ar ddatblygiad trydedd gylchred y Cynlluniau Rheoli Basn Afon (Brian Pawson a Geraint Weber)***

***PG11 – Darparu dolen i ganlyniad dosbarthiad dros dro'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr ar Arsyllwi Dyfroedd Cymru (Brian Pawson a Geraint Weber)***

Bu rhywfaint o drafod ynglŷn ag anghywirdeb ychydig o'r data ffosffad a sut y gallai hyn effeithio ar ddosbarthiad y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr. Cadarnhaodd Geraint Weber fod y data ffosffad annibynadwy wedi'i hepgor o'r dosbarthiad a bod hen ddata wedi'i ddefnyddio yn nosbarthiad 2019. Ni fydd y problemau o ran y data ffosffad yn broblem erbyn dosbarthiad 2021, oherwydd bydd tair blynedd o ddata newydd i gynorthwyo'r gwaith o bennu'r dosbarthiad.

O ran meysydd sensitif o dan y Gyfarwyddeb Trin Dŵr Gwastraff Trefol a'r Gyfarwyddeb Nitradau, mae Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd yn bwriadu cynnal adolygiadau pellach yn ystod 2019.

Cafwyd trafodaeth ynghylch datblygiad gwahanol ddulliau gweithredu mewn gwahanol rannau o'r DU o ran deddfwriaeth amgylcheddol, gofynion trwyddedu ac ati. Mae angen i'r wybodaeth a ddarperir ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer cwsmeriaid fod yn glir iawn o ran deddfwriaeth a'r prosesau sy'n berthnasol yng Nghymru. Mae gwefan Cyfoeth Naturiol Cymru yn cael ei diweddarau yn ystod y 18 mis nesaf er mwyn arwain cwsmeriaid at yr wybodaeth gywir. Cadarnhawyd nad yw'r rheolau newydd gan DEFRA ar gyfer ffermio a dŵr yn berthnasol yng Nghymru.

**4(b)(iii) Adolygiad saethu Cyfoeth Naturiol Cymru**

Roedd yr adolygiad saethu'n ymdrin â'r holl dir a reolir gan Cyfoeth Naturiol Cymru, ond yn benodol Ystad Goetir Llywodraeth Cymru. Seiliwyd ef ar egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy a'r nodau llesiant. Mae nifer y safleoedd lle y caiff saethu ei wneud ar dir a reolir gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn fach iawn, a chymeradwywyd yr argymhellion gan fwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru ym mis Gorffennaf 2018. Yn benodol, penderfynwyd y byddai prydlesu'r hawl i saethu ffesantod, saethu adar a chynnal gweithgareddau eraill a oedd yn ymwneud â drylliau yn cael ei ystyried fesul achos.

Wedi hyn, derbyniodd Cyfoeth Naturiol Cymru lythyr gan Weinidog yr Amgylchedd yn nodi nad yw Llywodraeth Cymru'n cefnogi defnyddio Ystad Goetir Llywodraeth Cymru i saethu ffesantod, i fridio adar hela nac i gadw adar mewn corlannau dal. Golygodd hyn fod angen rhoi mwy o ystyriaeth i'r penderfyniad a gymerwyd yng nghyfarfod bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru ym mis Gorffennaf 2018, gan ystyried sefyllfa Llywodraeth Cymru fel y perchennog tir a chytundeb y bwrdd yn y cyfarfod hwn i roi polisi Llywodraeth Cymru ar waith.

Yn ystod cyfarfod bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru ym mis Medi 2018, ystyriodd y bwrdd sut y gallai roi polisi Llywodraeth Cymru ar waith. Cytunwyd y byddai Cyfoeth Naturiol Cymru yn rhoi'r gorau i brydlesu hawliau saethu ffesantod ar Ystad Goetir Llywodraeth Cymru o fis Mawrth 2019 (pan fydd y prydlesau cyfredol yn dod i ben). Ni fydd estyniadau'n cael eu cynnig i brydlesau cyfredol.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi derbyn nifer fawr o lythyrau yn gofyn am adolygiad pellach ers hyn.

***PG12– Darparu dolen i ddatganiad Cyfoeth Naturiol Cymru ar yr adolygiad saethu (Brian Pawson)***

**4(b)(iv) Afancod**

Gwnaeth Brian Pawson grynhoi trafodaethau blaenorol ar y pwnc hwn, yn cydnabod bod afancod yn gallu effeithio ar amaethyddiaeth a choedwigaeth, ond gan nodi'r pethau cadarnhaol o ran bioamrywiaeth a buddion eraill i'r amgylchedd.

Cadarnhawyd bod angen i unrhyw un sy'n dymuno cyflwyno afancod wneud cais am drwydded. Derbyniwyd cais i ryddhau afancod yn Sir Gaerfyrddin ym mis Rhagfyr 2010, ond mae hwn wedi'i dynnu yn ôl bellach. Mae tystiolaeth fod afancod yn bresennol yn nalgylch Afon Gwy, ac mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gweithio ar hyn o bryd gyda Llywodraeth Cymru, Lloegr Naturiol a'r Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt i drefnu gwaith arolygu yn ystod gaeaf 2018/19. Mae'r cynlluniau ar gyfer yr arolwg arfaethedig wrthi'n cael eu datblygu o hyd.

Mae pob mater sy'n ymwneud â throsglwyddiad posibl clefydau o afancod i rywogaethau eraill yn cael sylw gan Swyddfa'r Prif Swyddog Milfeddygol.

***PG13 – Rhannu unrhyw wybodaeth bellach am sut y gallai'r boblogaeth o afancod fod wedi sefydlu ar Afon Gwy (Brian Pawson a Liz Halliwell)***

Trodd y drafodaeth wedyn at ddatblygiad y prosiect 'O'r Mynydd i'r Môr' ym Mynyddoedd Cambria i'r gogledd o Aberystwyth. Mae'r prosiect hwn wedi cael cyllid gan raglen Endangered Landscapes i adfer ecosystemau a'r economi leol. Lleisiwyd rhai pryderon ynghylch arweinyddiaeth y prosiect gan Ailwylltio Prydain. Awgrymwyd y byddai tir yn cael ei adael o ganlyniad, ond mae ymrwymiad partneriaid prosiect eraill fel Coed Cadw, Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt a Cyfoeth Naturiol Cymru (ymhlith eraill) yn awgrymu fel arall. Cred Cyfoeth Naturiol Cymru fod y pwyslais ar barhau i ddysgu o brosiectau ar raddfa tirwedd gyfan er mwyn profi'r dystiolaeth, yr wybodaeth a'r cydweithrediad sydd eu hangen i reoli tir mewn modd cynaliadwy a darparu cymorth i gefn gwlad Cymru.

***PG14 – Dosbarthu rhagor o wybodaeth am y prosiect O'r Mynydd i'r Môr (Brian Pawson)***

**4(b)(v) Ffermio dwys**

Yn 2017, gwnaeth Cyfoeth Naturiol Cymru gyhoeddi canllawiau diwygiedig o dan y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol ar gyfer asesu allyriadau amonia a nitrogen o ffermydd dwys (moch a dofednod). Mae'r canllawiau hyn yn cael eu diwygio bellach yn dilyn adborth gan randdeiliaid. Mae hefyd angen cynnwys ychydig o dystiolaeth newydd. Bydd rhanddeiliaid yn cael eu gwahodd i ddigwyddiad gwybodaeth pan fydd y canllawiau diwygiedig yn barod i gael eu cyhoeddi. Wedi hyn, bydd cyfnod pontio o 12 wythnos cyn y bydd yn rhaid rhoi unrhyw newidiadau ar waith.

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn sefydlu gweithgor i hwyluso mwy o gydweithio o ran effeithiau ffermio dwys ar iechyd cyhoeddus. Mae aelodau eraill yn cynnwys Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar lygredd amaethyddol hefyd yn cynnal prosiect (drwy staff arbenigol yn Cyfoeth Naturiol Cymru) i gasglu tystiolaeth ar oblygiadau amgylcheddol ehangu cwrpas y Rheoliadau

Trwyddedu Amgylcheddol i gynnwys unedau godro mwy o faint (Argymhelliad 4.7 yn Adroddiad Interim is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru). Mae manyleb prosiect yn cael ei llunio a bydd yn cael ei dosbarthu i is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru am sylwadau.

***PG15 – Cael rhagor o wybodaeth am bryd y bydd canllawiau diwygiedig Cyfoeth Naturiol Cymru ar asesu allyriadau o ffermydd dwys yn cael eu cyhoeddi (Brian Pawson ac Alison Soper)***

***PG16 – Gwirio a fydd yr undebau ffermio'n cael eu gwahodd i ymuno â'r gweithgor ar ffermio dwys sydd wedi'i sefydlu gan lechyd Cyhoeddus Cymru (Brian Pawson ac Alison Soper)***

#### **4(b)(vi) Datganiadau ardal**

Ers y diweddariad diwethaf ym mis Mawrth 2018, mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi parhau i weithio'n fewnol ar adeiladu'r sylfaen dystiolaeth yn lleol. Bydd saith datganiad ardal yn cael eu cynhyrchu; bydd chwech o'r rhain ar dir ac un yn forol. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn defnyddio blaenoriaethau'r Polisi Adnoddau Naturiol fel sail i ddatblygu pob datganiad ardal. Mae'r prif themâu neu heriau'n cael eu nodi ar hyn o bryd, gyda rhai'n gyffredin i bob rhan o Gymru ac eraill yn fwy penodol i leoliadau penodol.

Un o'r heriau o weithio ar ddatganiadau ardal yw sut i fanteisio i'r eithaf ar ddulliau gweithredu cyfranogol. Mae'n debygol y bydd angen amrediad o ddulliau gweithredu, yn dibynnu ar y mathau o faterion sydd angen mynd i'r afael â nhw. Byddai sesiwn fanylach gyda Fforwm Rheoli Tir Cymru ar ddechrau 2019 yn galluogi i ni archwilio'r themâu sy'n ymddangos ym mhob un o'r ardaloedd ymhellach, yn ogystal â dangos y ffordd orau o ymgysylltu â phob un o sefydliadau Fforwm Rheoli Tir Cymru.

Fel enghraifft, amlinellodd Martyn Evans y themâu sy'n ymddangos o fewn datganiad ardal de Cymru a'u perthynas â'r Strategaeth Rheoli Adnoddau Naturiol. Er bod yn rhaid i Cyfoeth Naturiol Cymru gyflawni yn erbyn ei gylch gwaith, mae hefyd angen iddo ystyried cyd-destun ehangach Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Er enghraifft, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn rheoli oddeutu 60% o'r tir yng Nghastell-nedd Port Talbot, lle mae 7.4 mlynedd o wahaniaeth rhwng disgwyliad oes yr ardaloedd difreintiedig a'r rhai hynny nad ydynt yn ddifreintiedig. Mae cyfle clir i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus gyfrannu at yr agenda nwydd cyhoeddus, gyda lleoliad darpariaeth o'r fath yn cael ei lywio gan ddatganiadau ardal. Canolbwyntiodd trafodaeth bellach ar i ba raddau y gellid disgwyl yn realistig i gamau gweithredu gan reolwyr tir gyfrannu at natur y problemau sy'n wynebu'r bobl sy'n byw yn rhannau mwyaf difreintiedig Cymru. Serch hyn, cytunwyd y bydd datganiadau ardal yn darparu ffordd i reolwyr tir nodi'r mathau o nwyddau cyhoeddus y gallent eu darparu yn y dyfodol.

***PG17 – Trefnu gweithdy hanner diwrnod ar ddatganiadau ardal fel rhan o gyfarfod llawn nesaf Fforwm Rheoli Tir Cymru ym mis Chwefror 2019 (Brian Pawson a Russell De'Ath)***

#### **5. Adborth gan is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar lygredd amaethyddol**

Amlinellodd Zoe Henderson faint y gwaith a oedd nawr ar droed ar draws y pum ffrwd waith a nodwyd yn Adroddiad Interim is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru:

<https://cdn.naturalresources.wales/media/685891/interim-report-from-wlmf-sub-group-on-agricultural-pollution-cym.pdf?mode=pad&rnd=131750883350000000>

Mae pob aelod o'r is-grŵp wedi dangos ymrwymiad sylweddol tuag at weithio gyda'i gilydd i fynd i'r afael â llygredd amaethyddol. Mae llythyr cydnabyddiaeth ffurfiol wedi ei dderbyn gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig mewn ymateb i'r Adroddiad Interim.

Mae Cyswllt Ffermio wedi cyflwyno rhaglen ymwybyddiaeth yn seiliedig ar naw ddigwyddiad ffermio cynaliadwy, a fynychwyd gan oddeutu 2,000 o ffermwyr. Mae'r rhain yn cael eu dilyn gan gyfres o ddigwyddiadau wedi eu targedu ar ffermydd sy'n cael eu cynnal ledled 28 o gyrff dŵr a nodwyd yn flaenorol fel y rhai hynny sydd yn y perygl mwyaf o lygredd amaethyddol. Gallai codi ymwybyddiaeth o faterion llygredd arwain at gynnydd yn nifer y digwyddiadau llygredd yr adroddir amdanynt.

Mae Cyswllt Amgylchedd Cymru wedi gwneud cais am le ar is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru, a gwnaethant ysgrifennu'n ddiweddar at Zoe Henderson a Clare Pillman, Prif Swyddog Gweithredol Cyfoeth Naturiol Cymru. Gwnaeth Dr Stephen Marsh-Smith (Afonydd Cymru) ac Arfon Williams (y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar) fynychu cyfarfod diwethaf yr is-grŵp ar ran Cyswllt Amgylchedd Cymru a gwnaethant ddarparu cyflwyniadau byr. Roedd y negeseuon o fewn y rhain yn cydweddu'n gryf â nodau'r is-grŵp. O ganlyniad, mae aelodau'r is-grŵp wedi penderfynu y dylid gwahodd Cyswllt Amgylchedd Cymru i gyfrannu at y rhai sy'n ymwneud â'r ffrwd waith reoleiddio.<sup>1</sup>

Mae menter wirfoddol dan arweiniad ffermwyr yn cael ei datblygu gan NFU Cymru gyda chefnogaeth Cyfoeth Naturiol Cymru. Cafodd cyfweiliadau ar gyfer swydd cydlynnydd prosiect eu cynnal yn ddiweddar, ac mae ymgeisydd priodol wedi'i ddewis.

Lleisiwyd rhai pryderon nad oedd rhai sefydliadau'n gwybod beth oedd yr is-grŵp yn ei wneud o hyd, yn enwedig o ran rhaglen waith Cyswllt Ffermio. Nodwyd bod Llywodraeth Cymru / Cyswllt Ffermio yn gwneud ychydig o waith ychwanegol i ymgysylltu ag ymgynghorwyr amaethyddol fel eu bod yn ymwybodol o'r meini prawf sy'n berthnasol i'r Grant Cynhyrchu Cynaliadwy newydd ac yn gallu cynghori ffermwyr yn unol â hynny.

Gwnaeth Bob Vaughan a Zoe Henderson fynychu Panel Cynghori Amgylcheddol Annibynnol Dŵr Cymru yn ddiweddar i amlinellu gwaith is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru.

## **6. Brexit a'n Tir**

Eglurodd Bob Vaughan fod gwaith ar droed o fewn Cyfoeth Naturiol Cymru i sicrhau bod y sefydliad yn barod ar gyfer y diwrnod cyntaf ar ôl i'r DU adael yr UE. Mae cais wedi'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru am ragor o adnoddau fel y gall Cyfoeth Naturiol Cymru ddarparu mwy o gymorth yn ystod y broses bontio, ond nid yw canlyniad y cais hwn wedi'i gyhoeddi eto. Yn y cyfamser, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru i nodi'r cyfleoedd a'r anawsterau sy'n debygol o godi ar ôl Brexit.

Cyhoeddwyd ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y rhaglen gymorth i reolwyr tir yn y dyfodol (Brexit a'n Tir) ym mis Gorffennaf, a'r dyddiad cau oedd 30 Hydref 2018. Mae

---

<sup>1</sup> Yn ystod cyfarfod dilynol gan is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar brynhawn 11 Hydref, penderfynwyd y dylid gwahodd Cyswllt Amgylchedd Cymru i fynychu cyfarfodydd is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru yn y dyfodol. Prif gynrychiolydd Cyswllt Amgylchedd Cymru yw Dr Stephen Marsh-Smith (Afonydd Cymru), gydag Arfon Williams (y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar yng Nghymru) yn dirprwyo yn ôl yr angen.



seminarau a gweithdai wedi'u cynnal ledled Cyfoeth Naturiol Cymru i sicrhau y gall staff o bob rhan o'r sefydliad gyfrannu at yr ymateb i'r ymgynghoriad. Yn benodol, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn awyddus i weld mwy o integreiddio rhwng y cynlluniau Cadernid Economaidd a Nwyddau Cyhoeddus. Ar ôl i'r ymgynghoriad ddod i ben, rhagwelir y bydd gofyn i Cyfoeth Naturiol Cymru roi rhagor o gymorth i Lywodraeth Cymru, yn enwedig o ran y gwaith ar reoleiddio. Gofynnwyd hefyd i nifer o gyrff anllywodraethol amgylcheddol ystyried a fyddent yn gallu trefnu i staff gael eu secondio i Lywodraeth Cymru. Cafwyd trafodaeth fer ar a allai sefydliadau Fforwm Rheoli Tir Cymru hefyd gael eu gofyn i wneud yr un peth.

Mae pedair gweinyddiaeth y DU yn ymgynghori bellach ar natur y cymorth i reolwyr tir yn y dyfodol. Mae gan bob un o'r ymgynghoriadau hyn nifer o themâu sylfaenol cyffredin, gan gynnwys y ffordd orau o nodi faint o nwyddau cyhoeddus sy'n cael eu darparu gan nifer fawr o reolwyr tir. Mae'n debygol y bydd manteision arwyddocaol dros barhau i gyfnewid gwybodaeth â gweinyddiaethau eraill ledled y DU.

### ***PG18 – Dosbarthu ymateb drafft Cyfoeth Naturiol Cymru i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar Brexit a'n Tir (Bob Vaughan)***

#### **7. Diweddariad ar goetir**

##### **7a. Diben a rôl Ystad Goetir Llywodraeth Cymru**

Lansiwyd y ddogfen hon yn Sioe Frenhinol Cymru, ac roedd yn nodi'r ffordd orau y gallai Cyfoeth Naturiol Cymru reoli Ystad Goetir Llywodraeth Cymru yn y dyfodol. Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru.

### ***PG19 – Dosbarthu dolen i'r ddogfen 'Diben a rôl Ystad Goetir Llywodraeth Cymru' (Brian Pawson)***

### ***PG20 – Aelodau Fforwm Rheoli Tir Cymru i gysylltu â Bob Vaughan neu Michelle Van Velzen os oes ganddynt sylwadau pellach ar ddogfen 'Diben a rôl Ystad Goetir Llywodraeth Cymru'***

##### **7b. Rhaglen Creu Coetiroedd Cyfoeth Naturiol Cymru**

Mae'r rhaglen hon yn cynrychioli ymateb Cyfoeth Naturiol Cymru i darged plannu coetiroedd Llywodraeth Cymru (66,000 hectar o goetir newydd erbyn 2030 ar gyfradd o rhwng 2,000 a 4,000 hectar y flwyddyn), sy'n deillio yn ei dro o'r agenda ddatgarboneiddio. Mae cyllid ar gael i gynorthwyo rheolwyr tir i greu coetiroedd newydd, ond mae'r gofyniad na ellir dychwelyd i ddefnyddio unrhyw diroedd sydd wedi eu plannu at ddiben arall wedi bod yn rhwystr mawr i lawer o reolwyr tir. Rhwystr arall yw'r angen i warchod safleoedd cyfredol gyda gwerth uchel ar gyfer bioamrywiaeth. Mae Cynllun Creu Coetir Glastir yn fan cychwyn defnyddiol, ond mae angen gwneud rhagor o waith i fireinio'r map cyfyngiadau cyfredol. Mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru rôl hefyd mewn creu coetiroedd newydd. Gellir defnyddio cyllid sydd ar gael yn sgil creu ffermydd gwynt newydd ar Ystad Goetir Llywodraeth Cymru i brynu tir newydd sy'n addas ar gyfer plannu coed.

Bu ychydig o drafodaeth ynghylch a oedd Cyfoeth Naturiol Cymru yn ailblannu'n ddigon cyflym ar ôl cwmpo coed. Cadarnhawyd bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn parhau i weithredu o fewn yr amlen gytunedig o fod ag uchafswm o 4–5% o dir moel ledled holl Ystad Goetir Llywodraeth Cymru ar unrhyw adeg.

Pwysleisiodd Tim Kirk y gall fod buddion iechyd i goed dros beidio ag ailblannu'n rhy gyflym, e.e. rheoli'r chwilen rhisgl sbriws. Hefyd, gall ffermwyr ennill incwm o blannu coed, gyda'r gwerthiannau o deneuo a'r cnwd terfynol yn cyfrannu'n sylweddol tuag at lif arian. Gellid cyflawni targed plannu Llywodraeth Cymru drwy greu tri hectar o goetir newydd ar bob un o'r 22,000 o ffermydd yng Nghymru. Gallai sicrhau bod coed yn cael eu plannu ar ganran benodol o dir fod yn un o'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer taliadau cymorth rheoli tir yn y dyfodol.

Gofynnodd aelodau eraill o Fforwm Rheoli Tir Cymru a ellid trin coed mwy fel cnwd traddodiadol yn y dyfodol, e.e. heb ofyniad i ailblannu ar ôl cwmpo'r coed terfynol. Cadarnhawyd bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn siarad â Llywodraeth Cymru ynghylch y mater hwn. Nid oes cymhelliad chwaith i ffermwyr tenant blannu coed gan eu bod yn parhau i fod yn eiddo i'r landlord.

Cadarnhawyd y byddai'r cynllun Plant! (plannu coeden ar gyfer pob plentyn a gaiff ei eni neu ei fabwysiadu yng Nghymru) yn cael ei ddefnyddio i helpu cymunedau lleol i gofio 100 mlynedd ers diwedd y Rhyfel Byd Cyntaf / 100 mlynedd ers creu'r Comisiwn Coedwigaeth. Gall datganiadau ardal hefyd chwarae rhan o ran helpu i benderfynu ar leoliadau newydd i'w plannu.

## **8. Unrhyw fater arall**

Ni chodwyd unrhyw faterion pellach o dan yr eitem hon.